Y Gwirfoddolwr yn Sir Ddinbych

Ebrill 2011

Adnewyddu Aelodaeth

Mae'r amser yna o'r flwyddyn eto! Amser adnewyddu aelodaeth. Sicrhewch fod eich mudiad yn rhan o lais cyfunol y Trydydd Sector yn Sir Ddinbych, o dan ymbarél CGGSDd.

Bydd pob mudiad oedd yn aelod llynedd yn derbyn llythyr atgoffa a ffurflen drwy'r post.
Os ydych yn awyddus i helpu i gryfhau llais y sector gwirfoddol /cymunedol, mewn cyfnod anodd iawn i bawb, ymunwch â CGGSDd drwy gwblhau a dychwelyd ffurflen aelodaeth.
Mae'r ffurflen ar gael drwy un ai gysylltu â CGGSDd ar 01824 702441 Bronwen/Carys neu drwy lawr lwytho'r manylion aelodaeth oddi ar ein gwefan

www.dvsc.co.uk

Ymunwch â CGGSDd heddiw

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun
LL15 1AF

Ffôn: 01824 702441
Ffacs: 01824 705412

e.bost
office@dvsc.co.uk
Gwefan
www.dvsc.co.uk
Newvol - Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3132487
Elusen Gofrestredig 1054322

Prif Swyddog Gweithredol
John Watkin

PWY YDI PWY YN CGGSDd?

John Watkin - *Prif Swyddog Gweithredol*

Gareth Mawby *Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol*

Maggie Bradley *Swyddog Datblygu, Canolfan Gwirfoddoli - Porth Ymgysylltu*

Suzanne Bradley *Swyddog Cyswllt Partneriaethau*

Sarah Caunt *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Carys Edwards *Clerc/Teipydd*

Jackie Evans *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Gerry Frobisher *Cyd-drefnydd Gwirfoddoli*

Lindsay Haveland *Uwch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

Bronwen Isaac *Arolygwr Swyddfa*

Gaynor Jones *Trefnydd Y Ganolfan Gwirfoddoli*

Vera Jones *Gofalwraig*

Matthew Lee *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Lilwen Roberts *Swyddog Gwybodaeth*

Sian Roberts *Cynorthwy-ydd Datblygu*

Jennifer Rowlands *Swyddog Cyswllt Busnes a'r Trydydd Sector*

Sharon Simon *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Angela Watt *Gweithiwr Datblygu Cymunedol*

Elfed Williams *Uwch Swyddog Eiriolaeth Pobl Hŷn*

Emyr B Williams Uwch*Swyddog Datblygu*

JoAnne Williamson *Cynorthwy-ydd Cyswllt Cefnogaeth*

———————————————————

Fforwm Anabledd Dysgu Sir Ddinbych
Alan Benbow *Cydlynydd* 01824 707246
Jackie Evans *Gweinyddwr rhan amser*

———————————————————

NEWCIS - (Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru)
Sir Ddinbych - Swyddfa'r Rhyl 01745 331181

Ann Shield *Cydlynydd Gwasanaethau Gofalwyr*, **Gundega Bushevitsa** *Swyddog Arriannol/ Gweinyddol,* **Iona Crompton** a **Kealie Jones** Mentor Cyfleoedd a Chyflogaeth Gofalwyr, **Kati Denton** *Gweinyddwr ,* **Carolyn Hilderbrandt,** *Gweithiwr Maes,* **Diana Owen** *a* ***Glain Jones*** *Swyddogion Asesu Anghenion Gofalwyr,* **Farrell Coleman** *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Sir y Fflint - Yr Wyddgrug 01352 744055

Claire Sullivan *Cydlynydd* **Garry Davies** *Hwylusydd Annibyniaeth a Lles Gofalwyr* **Helen Owen** Hwylusydd Cymunedol **Katy Harris** *Hwylusydd Gofal Cychwynnol* **Barry Martin** Gweinyddwr **Viv Brundell** ag **Elaine Jones** Gweinyddwyr Grantiau **Simone Percy** *Hwylusydd Cyfleon a Chyfranogaeth Gofalwyr i Gyflogaeth* **Jean Rodden** *Hwylusydd Gofalwyr i Ofal Iechyd Parhaus*

Rhaglen Gloywi Profiad
Lleoliadau Profiad Gwaith i Bawb

Mae menter newydd yn cael ei lansio i uniaethu a rheoli lleoliadau gwaith i bobl sydd wedi eu gwneud yn segur, allan o waith neu sy'n chwilio am brofiad gwaith yn Sir Ddinbych.
Dechreuwyd y prosiect drwy weithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i uniaethu lleoliadau gwaith i helpu staff oedd yn cael eu gwneud yn segur o'r Cyngor i ennill profiad mewn sector wahanol tra'n gweithio eu cyfnod rhybudd.
Hoffem ehangu'r prosiect i helpu grwpiau lleol a gwirfoddolwyr i gael lleoliadau gwaith, di-dâl, gyda busnesau bychan a chanolig yn Sir Ddinbych a thu hwnt.
Gall unrhyw un dros 18 mlwydd oed wneud cais am leoliad gyda busnesau lleol sydd angen cymorth ychwanegol am gyfnod byr.

Pa fantais sydd i mi?

- Profi rôl wahanol tra'n cael fy nhalu (os ar gyfnod rhybudd)
- Dysgu sgiliau newydd
- Ennill profiad mewn sector neu rôl wahanol
- Cael geirda ychwanegol
- Mwy o brofiad i'w ychwanegu i'ch CV
- Gwneud mwy o gysylltiadau i'ch helpu i gael swydd newydd neu i ddechrau eich busnes eich hun

Bydd lleoliadau yn amrywio ond efallai'n cynnwys cyfleoedd i ennill profiad mewn gwaith siop, rheoli prosiect, gwaith swyddfa, gwerthu, marchnata, mecaneg, TG neu amrediad cyfan o fathau o fusnesau eraill.
Gallwn hefyd geisio eich helpu i ddarganfod y lleoliad priodol i chi, felly os oes gennych ddiddordeb arbennig gadewch i ni wybod, ag fe wnawn ein gorau, er na fedrwn warantu hyn, i ddod o hyd i leoliad i chi.
Nid oes unrhyw warant na chynnig o swydd ar ddiwedd y lleoliad gyda'r busnes, ag fe fydd y lleoliad am gyfnod sbesiffig fel y cytunwyd gyda'r busnes. Bydd unrhyw drafodaeth ynglyn â phosibilrwydd swydd gyda'r busnes yn fater rhwng yr unigolyn a'r busnes.
Os gwyddoch am fusnes fyddai efallai â diddordeb mewn darparu lleoliadau, gadewch i ni wybod.
Mae adnoddau GGGSDd yn gyfyngedig i ddod o hyd i leoliadau, felly peidiwch â digalonni os na fyddwn yn gallu eich helpu ar unwaith.

Am ragor o fanylion ag i gofnodi eich diddordeb yn y Rhaglen cysylltwch â:
Jennifer neu Matt, CGGSDd ar 01745 369973 neu e.bost community@dvsc.co.uk

Carnifal Prestatyn
Dydd Sadwrn 23ain Gorffennaf
Gorymdaith Fawr yn gadael pen uchaf Stryd Fawr am hanner dydd
Cae'r Carnifal, Ffordd Bastion, Prestatyn - agored o 10am - 9.30pm
Dathliad Jiwbili Deiamwnt - pen-blwydd 60 Carnifal Prestatyn.
Manylion cyswllt 07878 326874 neu ebost prestatyncarnival@hotmail.co.uk am fanylion llawn

Hoffem wahodd elusennau, grwpiau gwirfoddol, clybiau ayb i ymuno â ni er mwyn codi ymwybyddiaeth ag arian i'w mudiad drwy ymuno â'r orymdaith ag/neu gael stondin ar y cae. Mae'r orymdaith am ddim (ffi fechan am gystadlaethau), £15 i hurio lle i godi eich stondin

RHAGLEN DYSGU CYMUNEDOL RHANBARTHOL

Cyrsiau i gyd yn **£20 y pen** os na nodir yn wahanol (Heb nawdd o'r Cynulliad byddai'r cyrsiau costio £100 yr un)

Recriwtio ag Anwythiad Gwirfoddolwyr yn cynnwys Gwirfoddolwyr Anabl – Dydd Mawrth 12fed Ebrill ½ diwrnod (bore) - Corlan, Uned 3, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug. Ffi £10
Hyfforddwraig – Shelley Moorefield
I gadw lle ar y cwrs cysylltwch â Sue Williams, FLVC ar 01352 744000 neu e.bost sue.williams@flvc.org.uk

Monitro a Gwerthuso - Dydd Llun 9fed Mai ½ diwrnod (prynhawn) Corlan, Uned 3, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug. Ffi £10
Hyfforddwraig – Louise Blackwell
I gadw lle ar y cwrs cysylltwch â Sue Williams, FLVC ar 01352 744000 neu e.bost sue.williams@flvc.org.uk

Cyflwyniad i Dendro - Dydd Llun, 16eg Mai - 10.00 am – 3.30 pm – Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Hyfforddwr - Emyr B Williams
Pwysig : Noder fod y cwrs ar gyfer rhai sy'n gwybod dim byd am y broses tendro.
I gadw lle ar y cwrs cysylltwch â Bronwen Isaac ar 01824 702441 neu e.bost bronwen@dvsc.co.uk

Glanweithdra Bryd - Dydd Mawrth, 24ain Mai - 9.30am –4.30pm Tŷ AVOW, Stryd Egerton, Wrecsam
I gadw lle ar y cwrs cysylltwch â'r Tîm Hyfforddiant yn AVOW ar 01978 312556 neu e.bost communitycourses@avow.org (Ffi yn £45 i gynnwys tystysgrif)

Goruchwyliaeth a Gwerthusiad Gwirfoddolwyr - Dydd Mawrth 14eg Mehefin - Diwrnod llawn - Corlan, Uned 3, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug.
Hyfforddwyr – Lynne Rowlands a James Johnson
I gadw lle ar y cwrs cysylltwch â Sue Williams, FLVC ar 01352 744000 neu e.bost sue.williams@flvc.org.uk

Cymorth Cyntaf yn y Gweithle - Dydd Iau 16eg Mai - 9.30am –4.30pm Tŷ AVOW, Stryd Egerton, Wrecsam
I gadw lle ar y cwrs cysylltwch â'r Tîm Hyfforddiant yn AVOW ar 01978 312556 neu e.bost communitycourses@avow.org (Ffi yn £45 i gynnwys tystysgrif)

Recriwtio, Dewis ag Anwythiad Gwirfoddolwyr - Dydd Llun 20fed Mehefin 10.30 am – 3.30 pm – Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Y Rhyl
Hyfforddwyr – Gaynor Lloyd Jones a Maggie Bradley
I gadw lle ar y cwrs cysylltwch â Bronwen Isaac ar 01824 702441/ e.bost bronwen@dvsc.co.uk

Addas ar Gyfer Nawdd – Dydd Llun, 27ain Mehefin – 10.00 am – 3.30 pm – Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Hyfforddwr - Emyr B Williams
I gadw lle ar y cwrs cysylltwch â Bronwen Isaac ar 01824 702441 neu e.bost bronwen@dvsc.co.uk

Supporting you Supporting people
CYMORTH CYMRU
Cefnogi chi Cefnogi pobl

Crynodeb o Newidiadau Hawliau Lles Mai 17eg 2011, Llanelwy - Ar y cwrs byddwn yn edrych ar y newidiadau arfaethedig i Hawliau Lles a'r amserlen i'w gweithredu. Rhoddir manylion am y newidiadau arfaethedig i Fudd-dal Tai, Credyd Treth, Lwfans Byw i'r Anabl a'r Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth. Yn ychwanegol trafodir a rhoddir y briff diweddaraf ar y Credyd Cyffredinol. Bydd y cwrs hefyd yn edrych ar sut gall mudiadau amcangyfrif effeithiau'r newidiadau ar eu tenantiaid / cleientiaid a'r hyn ellir ei wneud gan fudiadau i baratoi am y newidiadau i ddod.

Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth 27ain Mai 2011, Llanelwy - Bydd y cwrs yn drosolwg o'r budd-dal hwn ag yn edrych yn fanwl ar yr Asesiad Gallu Gweithio, yr asesiad hanfodol i'r budd-dal ag yn y penderfyniad a wneir os yw'r budd-dal yn mynd i gael ei ddyfarnu. Mae nifer sylweddol o geisiadau am y budd-dal hwn yn cael eu gwrthod oherwydd methu'r Asesiad Gallu Gweithio gyda ffigurau'r Llywodraeth yn cadarnhau fod 39% o'r ceisiadau newydd am y Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth wedi'u hasesu yn abl i weithio ag o ganlyniad ddim yn gymwys i dderbyn y budd-dal. Amcan y cwrs yw darparu gwybodaeth a dealltwriaeth i staff ynglyn â pha wybodaeth mae rhaid i hawliwr ei ddarparu i baratoi am yr Asesiad Gallu Gweithio a sut i ymdopi ag apêl.

Am ragor o fanylion cysylltwch â **Kathryn Jellings**
Swyddog Hyfforddiant ag Achrediad, Cymorth Cymru, Tŷ Norbury, Ffordd Norbury, Fairwater, Caerdydd CF5 3AS
Ffôn: 02920 553687 www.cymorthcymru.org.uk

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn trefnu cwrs hyfforddiant undydd yn Wrecsam ar Mai 25ain, ar sut i wneud gwybodaeth ysgrifenedig a phrintiedig yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau dysgu.

Manteisiwch ar y cyfle i ddysgu mwy am sut i wneud eich deunydd ysgrifenedig yn fwy hygyrch

Am fanylion pellach cysylltwch ag Inacia Rodrigues, Gweinyddwr Hyfforddiant, Anabledd Dysgu Cymru

Tel: 029 2068 1174

Cynhadledd Cyfraith Elusennau Cymru WCVA 2011 - ma'n well bod yn barod

Mae grwpiau'r trydydd sector yn wynebu cyfnod anodd. Gallai eich dyfodol ddibynnu ar ba mor gyfarwydd rydych chi â deddfwriaeth. Dyma pam mai cynhadledd Cyfraith Elusennau Cymru WCVA 2011, a gefnogir gan Geldards, fydd yr un bwysicaf hyd yn hyn o bosibl. Caiff ei chynnal ar 12 Mai yn Llandrindod, a bydd yn cynnig gwybodaeth hanfodol a chyngor arbenigol ar ystod eang o bynciau, yn cynnwys:

- Gwarchod eich mudiad
- Herio penderfyniadau'r llywodraeth
- Sut i ddarparu gwasanaethau wrth i adnoddau leihau
- Rheoli risg ariannol
- Beth all y Comisiwn Elusennau ei gynnig
- Y newyddion diweddaraf am gyfraith cyflogaeth

Bydd arbenigwyr o WCVA, Geldards law firm, y Comisiwn Elusennau, Shelter Cymru, Watts Gregory a mwy wrth law i ddarparu sesiynau llawn a gweithdai yn llawn arweiniad gwerthfawr.
Mewn cyfnod ansicr, mae angen pob mantais bosibl ar grwpiau'r trydydd sector. Efallai y gall cynhadledd Cyfraith Elusennau 2011 eich rhoi gam ar y blaen.

Archebwch eich lle nawr drwy alw Llinell Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, ebost help@wcva.org.uk neu ewch i www.wcva.org.uk

GWASANAETHAU YMARFEROL SYDD BOB AMSER AR GAEL Yn CGGSDd

ADNODDAU

- Teipio - £3.50 am ddalen A4
- Llungopïo - 5c am ddalen A4
- Gwasanaeth Talu Cyflogau - Cyfraddau cystadleuol iawn - cysylltwch â Gareth Mawby 01824 702441 am fanylion costau
- Cyfieithu - o £40.00 am 1,000 o eiriau
- Defnyddio'r Rhyngrwyd - am ddim
- Hurio offer - Byrddau Arddangos, siartiau fflip ayb,
- Hurio Ystafelloedd Cynhadledd / Pwyllgor - manylion ar dudalen 15
- Cylchlythyr pob dau fis
- Dosbarthu taflenni gyda'n cylchlythyr - cysylltwch â Lilwen Roberts 01824 702441 am fanylion costau

ARIANNU

- Cyngor a gwybodaeth
- Gwasanaeth Funderfinder

- Ffynonellau ariannol addas
- Cyngor ar ffynonellau a gwneud ceisiadau ariannol

HYFFORDDIANT

Cyrsiau Hyfforddiant / Seminarau Gwybodaeth, Cyfeirio at gyrsiau hyfforddiant ar gost resymol:-

- Cyfrifon (SORPS)
- Rheoli Gwirfoddolwyr
- Ariannu
- Sgiliau Pwyllgor
- Swyddogaeth Ymdiriedolwyr

AYB AYB AYB

CANOLFAN GWIRFODDOLI

- Cydweddu Gwirfoddolwyr a chyfleoedd gwirfoddoli o fewn mudiadau yn y Sir
- Gwirfoddolwyr y Mileniwm 16 - 25 mlwydd oed
- Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn Sir Ddinbych - o dan 16 mlwydd oed

Bws mini newydd i Dde Sir Ddinbych

Yn ddiweddar sicrhaodd Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych gyllid gan Cadwyn Clwyd, TAITH a Chyngor Sir Ddinbych i brynu bws mini 16 sedd, newydd sbon, hollol hygyrch, er mwyn defnydd y gymuned.

Mae'r bws newydd, fydd yn cael ei ddanfon i ni ym mis Mehefin, ar gael i'w hurio gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Diolch i gefnogaeth busnesau lleol yn cynnwys Trelars Ifor Williams, gobeithiwn gadw'r costau hurio yn isel i sicrhau fod y bws yn fforddiadwy ac yn cael ei lawn ddefnyddio gan y gymuned. Mae Partneriaeth De Ddinbych yn bwriadu sefydlu cronfa i sicrhau dyfodol y gwasanaeth.

Os gwyddoch am unrhyw grŵp gwirfoddol neu gymunedol yn ne Sir Ddinbych sydd angen cludiant, cysylltwch â Sian Roberts, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, (CGGSDd) am fanylion pellach. Mae Sian, sy'n gweithio yng Nghanolfan Blas ar Fyw Corwen o ddydd Llun i ddydd Mercher yn awyddus i glywed gan unrhyw un fyddai â diddordeb mewn hyfforddi yn yrrwr gwirfoddol. Gellir cysylltu â Sian ar 01490 413429 (Llun – Mercher) neu 01824 702441 (Iau a Gwener) neu e.bost sian@dvsc.co.uk

Gwyliwch allan am fanylion lansiad swyddogol y gwasanaeth, y gobeithiwn fydd rywdro ym mis Medi

Mae gan GGGSDd gopi electroneg o gyhoeddiad 36 tudalen - **Gimme, Gimme, Gimme! -** A guide for organisations new to fundraising or just starting out raising money - March 2011

Os hoffech gopi yn electroneg, neu ar bapur os nad oes gennych gyfrifiadur, cysylltwch â Lilwen Roberts 01824 702441

nfpSynergy
helping non-profits thrive

LANSIO CYSTADLAETHAU CYMUNEDOL SIR DDINBYCH 2011

Mae'r Cystadlaethau Cymunedol blynyddol a gaiff eu trefnu gan **Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych** [CGGSDd] wedi'u lansio.

Mae tri gwahanol gategori. Y cyntaf ar gyfer **Menter Wirfoddol Ieuenctid y Flwyddyn**. Caiff y Gystadleuaeth hon ei noddi gan **Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych**. Mae'n amcanu i annog plant a phobl ifanc [dros 8 mlwydd oed], yn y Sir, i weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau ar fentrau sy'n arwain at fudd uniongyrchol i'r gymuned leol neu ei breswylwyr. Gall mentrau fod o natur gymunedol, gymdeithasol neu amgylcheddol.

Yr ail gategori yw **Stad Henoed y Flwyddyn Sir Ddinbych**. Caiff y gystadleuaeth hon ei noddi gan **Gymdeithas Tai Clwyd Alyn**. Fe fydd beirniaid y gystadleuaeth yn edrych ar nifer o agweddau gwahanol o fywyd ar y Stad gan gynnwys - os oes yna grŵp tenantiaid, ymddangosiad y Stad gan gynnwys gerddi; sut mae preswylwyr yn cefnogi preswylwyr eraill sydd mewn angen ac os yw preswylwyr yn cyfrannu at fentrau ailgylchu.

Y trydydd categori yw **Neuadd Bentref/ Canolfan Gymunedol y Flwyddyn Sir Ddinbych**. Caiff y categori yma nawdd gan **Gronfa Degwm Sir Ddinbych**. Bydd beirniaid y gystadleuaeth yn ystyried yr agweddau canlynol: Cyflwr yr adeilad, ymdrechion i godi arian gan y pwyllgor rheoli; cyflwr yr ardal o amgylch y neuadd/ ganolfan; ansawdd unrhyw neu welliannau i wella cyfleusterau a'r defnydd a wneir o'r neuadd/ganolfan gan grwpiau lleol ac eraill.

Mae'r gwobrwyon ymhob categori'r un fath sef £150 i'r enillydd, £100 i'r ail a £50 i'r trydydd.

Mae manylion pellach a ffurflenni cais ar gael gan
Emyr B Williams
Uwch Swyddog Datblygu
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 1AF
Rhif ffôn 01824 702441

Dyddiad olaf derbyn ceisiadau fydd dydd Gwener 27 Mai, 2010

Newyddion Da - Yn y rhifyn diwethaf o'r Gwirfoddolwr yn Sir Ddinbych soniwyd fod Suzanne Bradley, Swyddog Cyswllt Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn gadael ei swydd ar ddiwedd Mawrth oherwydd toriadau arian Cymorth.

Yn yr wythnos ddiwethaf mae Suzanne wedi'i phenodi yn Swyddog Cyswllt Trydydd Sector i Dîm Partneriaethau a Chymunedau Cyngor Sir Ddinbych. Lleolir y swydd yng Nghanolfan Naylor Leyland gyd CGGSDd. Bydd y rôl yn ymwneud â chefnogi ymglymiad y sector gwirfoddol yn natblygiad, cynllunio a ithrosglwyddo gwasanaethau ym mhherthynas â'r **Cynllun Mawr i Sir Ddinbych**. Bydd Suzanne yn gweithio gyda mudiadau gwirfoddol i hyrwyddo cyfranogiad ag ymglymiad plant a phobl ifanc, a defnyddwyr gwasanaethau eraill ee pobl hŷn. Bydd Suzanne yn trefnu gweithgareddau yn arbennig i'r sector gwirfoddol ar y Cynllun MAWR. Gadewch i Suzanne wybod os oes gennych unrhyw fater yn hoffech eu trafod.

Mae'n braf iawn cael dweud fod Suzanne yn aros gyda ni!!

Lansio Prosiect Datblygu Cymunedol Dinbych Uchaf

Dydd Gwener 4ydd Mawrth bu aelodau Partneriaeth Gymunedol Dinbych Uchaf, mudiad a sefydlwyd ac a gefnogir gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych [CGGSDd], yn dathlu lansio Prosiect Datblygu Cymunedol Dinbych Uchaf gyda phartneriaid ag aelodau o'r gymuned leol yng Nghanolfan Seion Stryd Henllan, Dinbych.

Nod y Prosiect Datblygu Cymunedol newydd yw gweithio gyda grwpiau cymunedol sy'n bodoli eisoes a rhai arfaethedig yn ardal Dnbych Uchaf i adeiladu eu cynhwysedd a'u cefnogi i godi arian i brosiectau cymunedol ag i roi cyfle i bobl leol gymryd rhan o fewn eu cymuned leol ag i ymwneud â mentrau fydd o fudd i'w hardal.
Cyflogir gweithwyr y prosiect gan GGGSDd gydag arian o Raglen Pawb a'i Le, Cronfa'r Loteri Fawr. Dyfarnwyd cyfanswm o £157,901 i ariannu'r prosiect am dair mlynedd. Mae Cronfa'r Loteri Fawr yn dosbarthu hanner yr arian achosion da ar draws y DU. Mae'r gronfa yn ymroddedig i ddod a gwir welliannau i gymunedau a bywydau pobl sydd fwyaf angen.
Dywedodd Angela Watt, Gweithiwr Datblygu Cymunedol y prosiect "Ein nod yw annog pobl o bob rhan o'r gymuned i ymglymu fel bod y prosiectau a ddatblygir yn wir adlewyrchiad o o anghenion y gymuned leol".
Dywedodd Cyng Colin Hughes, un o Gynhorwyr Sir yr ardal ag aelod o Bartneriaeth Gymunedol Dinbych Uchaf "Mae Partneriaeth Gymunedol Dinbych Uchaf wedi gweithio'n galed iawn gyda CGGSDd i wneud y prosiect yn realiti. 'Rydym yn edrych ymlaen i'r prosiect wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl yn ardal Dinbych Uchaf, a rhoi pŵer iddynt chwarae gwir ran yn eu cymunedau eu hunain. Hoffem gyfleu ein diolchiadau i Gronfa'r Loteri Fawr am gydnabod rhinweddau'r prosiect gwych yma."

'Roedd Chris Ruane, AS ag Ann Jones, AC ac amrediad o asiantaethau partner yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Coleg Llandrillo Cymru, UPDATE, Canolfan Margaret Morris, Gweithredu Dros Blant a Chymdeithas Tai Clwyd.Yn bresennol yn y lansiad

Os hoffech fanylion pellach am y prosiect neu os hoffech ymwneud â'r prosiect cysylltwch ag Angela Watt ar 01745 815897 neu angela@dvsc.co.uk

Grantiau GwirVol 2011-2012

Mae'n bleser gan GwirVol gyhoeddi lansio grantiau gwirfoddoli ymhlith yr ifanc 2011-2012.

Nod Grantiau Gwirfoddoli ymysg Pobl Ifanc GwirVol yw rhoi cymorth i gyflwyno amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli newydd yng Nghymru a thramor a fydd yn cefnogi'r newid sylweddol i bobl ifanc 16-25 oed gael gwirfoddoli, ac yn enwedig pobl ifanc dan anfantais. Mae cynllun grant GwirVol yn cynnig pum elfen nawdd wahanol:

Creu Cyfleoedd: Ar gyfer mudiadau sydd am greu prosiectau gwirfoddoli newydd ar gyfer pobl ifanc, swyddogaethau gwirfoddoli newydd ar gyfer pobl ifanc, neu recriwtio mwy o bobl ifanc i swyddogaethau gwirfoddoli sydd eisoes yn bodoli. Gall ceisiadau grant Creu Cyfleoedd fod am uchafswm o £10,000.

Hyrwyddo: Ar gyfer mudiadau sydd am hyrwyddo buddion neu herio'r farn am wirfoddoli ar gyfer pobl ifanc neu ynghylch pobl ifanc, yn eu cymunedau lleol. Gall ceisiadau grant Shout it out! fod am uchafswm o £3,000.

StreetGames: Ar gyfer mudiadau sydd am ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli mewn chwaraeon ar garreg y drws mewn ardaloedd difreintiedig. Gall ceisiadau grant StreetGames fod am uchafswm o £2,000.

Rhyngwladol: Ar gyfer mudiadau sydd am ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli dramor, sydd o fudd i bobl ifanc a'u cymunedau yng Nghymru hefyd. Gall ceisiadau grant Rhyngwladol fod am uchafswm o £30,000.

Gwirfoddolwyr y Mileniwm : Ar gyfer mudiadau sydd am gydnabod ymrwymiad pobl ifanc i wirfoddoli drwy gynnig y wobr rhagoriaeth 200 awr. Gall ceisiadau grant Gwirfoddolwyr y Mileniwm fod am uchafswm o £10,000.

Sut i wneud cais:

Am ragor o wybodaeth ac i lwytho'r ffurflenni cais a'r canllawiau i lawr ewch i http://www.gwirvol.org/cy/grantiau/.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 2pm dydd Mercher 8 Mehefin 2011.

Grantiau Ymddiriedolaeth Elusennau Stadiwm y Mileniwm (Cymru)

Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm eu bod yn gwahodd ceisiadau gan grwpiau ddim er mwyn elw ag elusennau cofrestredig sydd a'u gwaith o fudd i fywydau rhai sy'n byw a gweithio yng Nghymru. I fod yn gymwys am grant rhaid i weithgareddau prosiect ddisgyn o few un o'r categorïau canlynol. Chwaraeon; Celfyddydau; yr amgylchedd a'r gymuned. Hyd yma mae'r ymddiriedolaeth wedi dyfarnu grantiau o bron i £4 miliwn. Mae'r cynllun yn agored hefyd i dderbyn ceisiadau gan grwpiau cenedlaethol sy'n gweithio ar draws Cymru gyfan a gallant hwy wneud cais am hyd at £12,500.

Os ydych wedi derbyn grant yn y gorffennol nid ydych yn gymwys i wneud cais arall am 3 blynedd wedyn.

Dyddiad cau nesaf yw dydd Iau 24ain Ebrill. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod ddiwedd mis Mehefin a'r grantiau yn cael eu gyrru allan ym mis Gorffennaf 2011.

Am ragor o wybodaeth ewch i : http://www.millenniumstadiumtrust.co.uk/index.asp

Swyddi Gwag CGGSDd

Prosiect Eiriolaeth Pobl Hyn

[1] Gweithiwr Allgymorth Eiriolaeth - Rhan amser (yn Y Rhyl)

[2] Cynorthwyydd Gweinyddol - Rhan amser (yn Y Rhyl)

Swyddog Mentrau Cymdeithasol - Llawn amser (Y Rhyl a Rhuthun)

Swyddog Cyllid - Rhan amser (Rhuthun)

Mae manylion llawn, ffurflenni cais a swydd ddisgrifiadau ar gael ar wefan CGGSDd www.dvsc.co.uk neu cysylltwch â CGGSDd ar 01824 702441

Dyddiad cau ar gyfer yr holl swyddi yw 26ain Ebrill 2011

Ymgynghoriadau cyfoes

Mae'r ymgyngoriadau canlynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ag asiantaethau eraill yn agored ar hyn o bryd. Os nad oes gennych ddefnydd o'r rhyngrwyd a'ch bod yn dymuno manylion am unrhyw un o'r ymgynghoriadau, cysylltwch â CGGSDd ar 01824 704635 neu office@dvsc.co.uk or all current WAG consultations see; http://tinyurl.com/c56t52

• **Mesur Lles y Genedl** – cau 15/04/2011 http://www.ons.gov.uk/about/consultations/measuring-national-well-being/index.html

• **Ymgynghoriad ar y ddogfen ddrafft 'Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'**– cau 18/04/2011 http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/maternity/?lang=en&status=open

•**Datrys Anghydfod yn y Gweithle** - cau 20/04/2011 http://www.bis.gov.uk/Consultations/resolving-workplace-disputes?cat=open

Ymchwiliad i weithrediad o hawliau pobl anabl i fywyd annibynnol – cau 29/04/2011 http://tinyurl.com/65kdzvr

• **Band Llydan yng Nghymru** - cau 05/05/2011 http://www.parliament.uk/business/committees/committees-az/commons-select/welsh-affairs-committee/news/Broadband-Announcement/

Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) - Rheoliadau a Chanllawiau Drafft http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/carers/?skip=1&lang=cy cau 25/05/11

• **Adolygiad o Ofal Seibiant yng Nghymru- cau 08/06/2011** http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/respite/?lang=cy

FFORWM ANABLEDDAU DYSGU SIR DDINBYCH

Dyddiadau i'ch Dyddiadur

Disgo misol y Fforwm a gynhelir ar nos Wener olaf y mis yn Neuadd y Seiri Rhyddio, Meliden 7- 10.30pm, dyddiadau yn cynnwys: 29 Ebrill (Disgo gwisg ffansi), 27 Mai, 24 Mehefin, 29 Gorffennaf, 26 Awst (Gwisg Ffansi), 30 Medi, 4 Tachwedd. Cynhelir parti Nadolig a Disgo'r Fforwm ar Ragfyr 9fed.

Diwrnod Hwyl Blynyddol y Fforwm i'w gynnal ddydd Sadwrn Mehefin 11 yng Ngerddi Gŵyl Ffrith Beach o 10 - 5pm, gyda llawer o weithgareddau yn cynnwys 'Ghostbuskers', adloniant byw a chystadleuaeth 'Talent Prestatyn.

Lansiad Cynllun Beicio 20fed Ebrill yn y Ffrith. Bydd beiciau ar gael o 4yd Ebrill o'r adran bowlio deg yn Ffrith, Prestatyn, lee cedwir y goriadau. Y gost am hyd at 4 awr fydd £2 y person.

Am fanylion pellach am waith a gweithgareddau'r Fforwm cysylltwch ag unai Alan neu Jackie ar 01824 709315

Ymgyrchu - diweddariad gan John Watkin, Prif Swyddog Gweithredol CGGSDd

1. Pwyllgorau Archwiliad Cyngor Sir Ddinbych - Hyd yma ni sicrhawyd unrhyw seddau ar y pwyllgorau archwiliad lleol.

2. Côd Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ariannu'r Trydydd Sector- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi paratoi côd drafft i'r Grŵp Cyswllt Sector Gwirfoddol roi eu sylwadau arno. Mae cyfarfod i'w gynnal ar 11fed Ebrill i drafod materion gyda'r bwriad o ddod â'r ddogfen i ben o'r diwedd

3. Caffaeliad a Chomisiynu

(a)**Partneriaeth Caffaeliad Gogledd Cymru** - gorchwyl gwylio, gan nad oes unrhyw broblemau amlwg ar hyn o bryd.

(b)**Comisiynu ar y cyd** - Dechreuwyd trafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych a gofynnwyd i'r eitem gael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu 2011er mwyn i ni, gyda'n gilydd, symud y mater ymlaen gan yr ymddengys fod Siroedd eraill yn llawer pellach ymlaen na Sir Ddinbych.

4. Bwrdd Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) 'Rydym yn disgwyl am ganlyniadau adolygiad canol tymor Llywodraeth Cynulliad Cymru. O ganlyniad i'r adolygiad 'rydym yn gobeithio bydd y rhaglen wledig yn fwy hygyrch a llai biwrocrataidd fyddai o gymorth mawr i'r Trydydd Sector a chymunedau lleol.

5. Bwrdd Adfywiad - 'Rydym yn parhau i ddisgwyl i glywed gan y Cyngor Sir os yw'r Trydydd Sector yn mynd i gael ymglymiad.

6. Rhyl Shopmobility - Mae'r mudiad wedi dioddef problemau ariannol difrifol oherwydd problemau yn deillio o'r gwaith atgyweirio ffordd yn Y Rhyl, sydd wrth gwrs allan o'u rheolaeth. Mae ffeil ar fin ei chwblhau i amlinellu effaith y gwaith ffordd ar y mudiad, ag yn bwysicach fyth ar eu cleientiaid drwy iddynt golli gwasanaeth cefnogi pwysig iawn dros gyfnod hir. Bwriedir trafod casgliadau'r adroddiad gyda'r Awdurdodau.

7. Cludiant Cymunedol - 'Rydym, ers amser maith, eisiau gweld gwasanaeth cludiant cymunedol grymus, wedi'i gydlynu'n dda, yn Sir Ddinbych ac mae'n dda cael dweud ein bod, ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych a Chymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru yn cymryd yn cymryd camau positif i'r perwyl hyn. Mae nifer o gyfarfodydd wedi cymryd lle ond hyd yma nid oes unrhyw newyddion pendant i'w adrodd.

8. Cymorth a Theuluoedd yn Gyntaf - 'Rydym yn gobeithio cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog dros Blant Mr Huw Lewis ar ôl yr etholiad, gan gymryd bydd y portffolio yn parhau i fod gyda Mr Lewis, i ddathlu'r gwaith a gyflawnwyd gan fudiadau trydydd sector ag i ymofyn arweiniad ar sut fod rhai gweithgareddau allweddol, perthnasol i blant a phobl ifanc heb sgorio digon o fewn meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi'r 6 prosiect aflwyddiannus i fod yn gymwys i'w hariannu gan Cymorth o 1af Ebrill i 30ain Medi 2011.

9. Grantiau Mudiadau Gwirfoddol - dyma eitem newydd y bwriadwn ei godi yng nghyfarfod nesaf o'r Grŵp Cyswllt Sector Gwirfoddol gan nad yw mudiadau gwirfoddol hyd yma (ar 06.04.11) heb dderbyn llythyrau yn cadarnhau eu grantiau o 1af Ebrill ymlaen. Mae'r sefyllfa'n hollol annerbyniol gan fod y mudiadau hynny wedi gorfod clustnodi cyllid i dalu cyflogau a chostau adeiladau heb unrhyw sicrwydd am y swm grant refeniw sydd i ddod. Yn amlwg mae archwilwyr yn gofyn cwestiynau treiddiol.

Ynghlwm â'r grant mae hefyd gwir bryder fod Cyngor Sir Ddinbych wedi cael toriad o 1.6% yn eu grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ag eto wedi dewis torri grantiau i fudiadau gwirfoddol gan 10%. Tra bod Cyngor Sir Ddinbych wedi dynodi fod yr arbedion o 10% i'w ddefnyddio i ariannu gwasanaethau newydd ag bod mudiadau gwirfoddol yn gallu gwneud cais am grantiau nid oes unrhyw rwyd diogelwch i'r mudiadau rheini sy'n mynd i'w chael yn anodd parhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i bobl fregus yn ein cymunedau. Byddwn yn gofyn yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyswllt Sector Gwirfoddol i'r gostyngiad o 10% gael ei hepgor ag iddynt ddod o hyd i ffyrdd eraill o ariannu gwasanaethau newydd.

Canolfan Gwirfoddoli

Am ragor o fanylion ar gyfleodd neu faterion gwirfoddoli cysylltwch â Gaynor yn Rhuthun ar 01824 702441 /Gerry yn swyddfa'r Rhyl ar 01745 369973

Dydd Sadwrn 12fed Mawrth cymerodd dau ar bymtheg o bobl ifanc o Ogledd Cymru a Swydd Gaer, yn cynrychioli pymtheg o fudiadau ac ysgolion, ran mewn marathon chwe awr o wthio troliau mewn gwisg ffansi yn Sainsbury's Y Rhyl fel rhan o "ddiwrnod gwneud rhywbeth gwirion am arian" Comic Relief.

'Roedd y digwyddiad, a gefnogwyd gan Sainsbury's, wedi'i drefnu gan Gydlynydd Dreigiau Ifanc Gogledd Cymru, Gerry Frobisher, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a chodwyd swm clodwiw o £500 i Apêl Comic Relief.

Nod y Dreigiau Ifanc yw cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n ymwneud â mudiadau mewn lifrau ag i gynyddu'r nifer o wirfoddolwyr sy'n helpu i redeg i grwpiau.

Gweledigaeth Prosiect y Dreigiau Ifanc yw hyrwyddo dinasyddiaeth i bobl ifanc Cymru, drwy hwyl ag antur drwy weithio gyda'n gilydd a chefnogi'r naill a'r llall i ddarparu nifer cynyddol o gyfleoedd iddynt eu hunain a'r gymuned.

Rhagor o wybodaeth am y Dreigiau Ifanc gan Gerry Frobisher ar 01745 369973

Grantiau Ieuenctid Sir Ddinbych

Rhwng 1af Ebrill 2010 a 31ain Mawrth 2011 dyfarnwyd grantiau o bron i £8,700 gan Banel Grantiau Ieuenctid Sir Ddinbych, i un ar bymtheg o grwpiau led led Sir Ddinbych.

Clwb Criced Prestatyn, Sgwadron 1340 ATC Y Rhyl Clwb Hwyl y Plant, Theatr Fach Y Rhyl, Clwb Hwyl Hwyr, Dreigiau Ifanc, Seindorf Arian Llangollen, Prosiect Ieuenctid Dinbych, Geidiaid 1af Meliden, Pêl droed yn y Gymuned Y Rhyl, Cymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc Prestatyn, Clwb Ffermwyr Ifanc Llangollen a'r Cylch, Sgwadron 2193 ATC Prestatyn, Brigâd Ambiwlans Sant Ioan – Rhuthun, Canolfan Pop in Prestatyn

Mae uchafswm grant o £500 ar gael i gefnogi gwirfoddoli neu i sefydlu gweithgaredd gwirfoddoli, ar gyfer amrediad o brosiectau gwirfoddoli a gweithgareddau o dan arweiniad pobl ifanc. Mae'r panel fydd yn penderfynu ar ddyraniad grantiau yn bobl ifanc 16 - 25. Os oes gan eich grŵp ddiddordeb mewn gwneud cais am grant neu os am becyn cais, sgwrs anffurfiol neu fwy o wybodaeth cysylltwch â Gerry Frobisher, CGGSDd ar 01745 369973 / gerry@dvsc.co.uk neu Gaynor Jones ar 01824 702441 /Gaynor@dvsc.co.uk.
gaynor@dvsc.co.uk or Gerry Frobisher on 01745 369973, email gerry@dvsc.co.uk

Anrhydeddu Gwirfoddolwyr Ifanc am eu hymroddiad i'r Gymuned

Nos Iau 10fed Mawrth Mynychodd dros 60 o rieni a gwahoddedigion noson wobrwyo "Gwirfoddolwyr y Mileniwm", "Gwirfoddolwyr Ifanc Sir Ddinbych" a "Dreigiau Ifanc" yn Theatr y Pafiliwn Rhyl. Gwesteiwyr y noson oedd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.

Derbyniodd wyth ar hugain o wirfoddolwyr ifanc gyfanswm o hanner cant o dystysgrifau arbennig am eu hymrwymiad i wirfoddoli yn y gymuned gan y Pencampwr Bocsio a'r seren ffilmiau lleol **Spencer Wilding** a chyflwynydd Heart Radio **Angela Jay**.

Dywedodd Gerry Frobisher, Cydlynydd Gwirfoddoli Ieuenctid "'Roedd yn braf gweld cymaint o wirfoddolwyr ifanc yno, oedd rhyngddynt wedi cwblhau dros 2,500 awr o waith gwirfoddol.

Am ragor o wybodaeth am Wirfoddolwyr y Mileniwm, Gwirfoddolwyr Ifanc Sir Ddinbych neu'r Dreigiau Ifanc a gwirfoddoli'n gyffredinol, cysylltwch â Gaynor Jones ar 01824 702441 neu Gerry Frobisher ar 01745 369973.

Dyddiadau i'ch Dyddiadur

Blwyddyn Gwirfoddoli Ewropeaidd

Cynhelir Ffair Wirfoddoli i ddathlu Blwyddyn Gwirfoddoli Ewropeaidd ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, dydd Iau 19eg Mai 2011. Bydd staff Canolfan Gwirfoddoli CGGSDd yno i hyrwyddo cyfleon gwirfoddoli sydd ar gael.

Dathliad Blynyddol Wythnos Gwirfoddolwyr CGGSDd

Eleni cynhelir dathliad Wythnos Gwirfoddolwyr ar ddydd Mawrth 7fed Mehefin.
Manylion pellach yn y man.

Yn y cfamser os oes gennych unrhyw ymholiad ynglyn â Wythnos Gwirfoddolwyr cysylltwch â Gaynor Jones

Mae Swyddfa Archifdy Sir Ddinbych yn chwilio am grwpiau o wirfoddolwyr fyddai â diddordeb mewn helpu gyda gwaith cywrain ond hanfodol o lanhau rhai o'r dogfennau yn eu gofal. Cysylltwch â Gaynor Jones am fanylion pellach

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

Os ydych yn fudiad sy'n awyddus i recriwtio gwirfoddolwyr neu'n unigolyn sy'n chwilio am gyfleon gwirfoddoli mae gwefan Gwirfoddoli Cymru yn fan defnyddiol iawn i archwilio.

Cyfeiriad y wefan yw
www.volunteering-wales.net
Os am unrhyw gyfarwyddyd neu wybodaeth bellach cysylltwch â'r Ganolfan Gwirfoddoli

CANOLFAN NAYLOR LEYLAND RHUTHUN

Hurio Ystafelloedd

YSTAFELL GYNHADLEDD
(i hyd at 60 o bobl - ar ffurf theatr)

YSTAFELL BWYLLGOR FECHAN
(i hyd at 10 o bobl)

CYRSIAU HYFFORDDIANT

SEMINARAU

CYFARFODYDD

GWEITHDAI

Cost hurio ystafelloedd o £15 y sesiwn

I gael manylion llawn ynglyn â chostau ag argaeledd cysylltwch ag unai

Bronwen Isaac neu Carys Edwards

Ffôn: **01824 702441**

Ebost: **office@dvsc.co.uk**

Hefyd ar gael ar gyfer huriadau sector breifat

- **Man cyfarfod hollol hygyrch**
- **Maes parcio bychan**
- **Lifft**
- **Sustem Loop Intergral**
- **Cegin**

Er eich cyfleuster gellir trefnu'r canlynol ymlaen llaw:

- **Adnoddau cyfieithu**
- **Adnoddau clyweled**
- **Lluniaeth**

Gostyngiadau Sylweddol i Aeloadau

CANOLFAN NAYLOR LEYLAND
Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 1AF
www.dvsc.co.uk

Cymhorthfa Cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd – Pum cam syml

Dydd Gwener 6 Mai 2011 (pm), Neuadd Morfa, Y Rhyl
Hyfforddwr: Eileen Kinsman **Hyd:**½ diwrnod **Fformat**: Gweithdy

Nodau: Rhoi gwybodaeth ymarferol i gyfranogwyr er mwyn iddynt ddeall beth yw buddion incwm y gallent ei greu drwy Cymorth Rhodd a'r drefn gofrestru.

Mae Cymorth Rhodd yn galluogi elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol i adhawlio'r dreth a delir ar roddion gan unigolion - am bob punt a roddir i'ch mudiad chi, gallwch hawlio 28 ceiniog yn ychwanegol gan Gyllid a Thollau EM. Drwy ymgorffori'r dewis hwn yn eich strategaeth codi arian, gallwch greu mwy o gyllid digyfyngiad ar gyfer eich mudiad. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar y broses o gofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd a'i hawlio mewn pum cam syml, a bydd hefyd yn ymdrin â'r newidiadau i'r broses yn sgil cyllideb 2010.

Ar gyfer pwy mae'r cymorthfeydd hyn?
Bwriadwyd y sesiynau hyn ar gyfer y rheiny nad ydynt wedi cofrestru â Cyllid a Thollau EM i hawlio Cymorth Rhodd hyd yma, ond gallent hefyd fod yn ddefnyddiol i'r rheiny sydd eisoes wedi cofrestru ond sy'n awyddus i sicrhau eu bod yn hawlio popeth mae ganddynt hawl iddo.

Ffioedd: B £10 ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio yng Nghymru.
Am fwy o wybodaeth e-bostiwch training@wcva.org.uk neu ffoniwch Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

BTCV Cymru

'Cwrs Ewch yn Wyrdd i Gyflogaeth'
A ydych yn chwilio am yrfa yn yr awyr agored? A ydych eisiau dysgu mwy am gadwraeth, derbyn hyfforddiant achrededig, magu hyder a gwella eich iechyd a'ch ffitrwydd ar yr un pryd?

Mae ein cwrs 'Ewch yn Wyrdd i Gyflogaeth' (prosiect Porth Ymgysylltu) a reolir gan BTCV Cymru a Chyngor Sir Ddinbych ar fin cychwyn:
Dros gyfnod o 5 wythnos byddwch yn:
- **ennill sgiliau amgylcheddol drwy ymwneud yn ymarferol mewn prosiectau a hyfforddiant cadwraeth yn Sir Ddinbych**
- **gwella eich iechyd, ffitrwydd a hyder**
- **cael cyfle i ennill cymwysterau achrededig**
- **gwella eich sgiliau chwilio am waith a chael CV**
- **cael mynediad i gyfleoedd gwirfoddoli eraill, cyngor gyrfaoedd a hyfforddiant yn yr ardal leol**

I fod yn gymwys rhaid i chi fod:
- **dros 16 mlwydd oed**
- **yn ddi-waith neu'n anactif yn economaidd**
- **yn byw yn Sir Ddinbych**

Am ragor o fanylion cysylltwch â:
Sally McGuinness yn BTCV ar: - 01745 342426
(Rheolir y Porth Ymgysylltu gan WCVA, ag ariennir y Prosiect drwy'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi strategaeth Banc y Gymdeithas Fawr

Yn dilyn cyhoeddi strategaeth Swyddfa'r Cabinet y mis diwethaf a fydd yn gweld datblygu Banc y Gymdeithas Fawr, roedd llawer yn disgwyl clywed beth fyddai goblygiadau hyn i fudiadau yng Nghymru.

Daw cyllid ar gyfer Banc y Gymdeithas Fawr o ddwy ffynhonnell: buddsoddiad gan bedwar o fanciau'r stryd fawr, a fydd ar gael ledled y DU, a chyfrifon banc segur, a fydd ar gael ar gyfer Lloegr yn unig. Mae arian o gronfeydd banc segur yng Nghymru eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer dibenion gwahanol.

Nodwedd allweddol o agenda Cymdeithas Fawr llywodraeth y DU yw sefydlu Banc y Gymdeithas Fawr, a'i nod fydd cynyddu'r farchnad buddsoddi cymdeithasol er mwyn i fudiadau gwirfoddol, elusennau a mentrau cymdeithasol gael llwybr at fwy o adnoddau.

Pwrpas Banc y Gymdeithas Fawr yw gweithredu fel cyfanwerthwr a defnyddio ei fantolen i gyd-fuddsoddi, tanysgrifio neu warantu buddsoddiadau ynghyd â ffynonellau preifat o gyfalaf.

Bydd Banc y Gymdeithas Fawr yn cael ei gyllido gan £200 miliwn a roddir gan fanciau mwyaf y DU, ac amcangyfrif o £400 miliwn o gyfrifon banc segur: cyfrifon nad oes neb wedi cyffwrdd ynddynt ers 15 mlynedd neu ragor.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf y llynedd y byddai 100% o arian cyfrifon segur i'w wario yn Lloegr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddi cymdeithasol, ond bod cyfrifon segur yng Nghymru wedi'u clustnodi at ddibenion eraill.

Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, cynigiodd Gweinidogion Cymru ddwy flaenoriaeth gwario a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ebrill 2010:

- Cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial, yn enwedig y rheiny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
Annog gweithgarwch cymunedol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Bydd y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru'n dosbarthu arian cyfrifon segur at y dibenion hyn.

Esboniodd Francis Maude, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, yn ystod cwestiynau Swyddfa'r Cabinet yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Mawrth 2011 y byddai'r £200 miliwn y mae pedwar o fanciau'r stryd fawr yn ei fuddsoddi ym Manc y Gymdeithas Fawr ar gael ledled y DU. Fodd bynnag, cadarnhaodd mai ar gyfer Lloegr yn unig y byddai gweddill yr arian o gyfrifon banc segur, ac na fyddai gan fenthycwyr cymdeithasol y tu allan i Loegr fynediad at yr arian hwn.

Cadarnhaodd Francis Maude hefyd na fyddai'r banc yn dyfarnu grantiau.

Bydd WCVA yn monitro cynnydd Banc y Gymdeithas Fawr ac yn rhannu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau newydd.

Mae'r Strategaeth *Cynyddu'r Farchnad Buddsoddi Cymdeithasol* ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet: www.cabinetoffice.gov.uk

Adolygiad strategol yn arwain at restr newydd o flaenoriaethau

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi 15 o flaenoriaethau rheoleiddio allweddol ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gan ganolbwyntio ar y broses o gofrestru elusennau, darparu cyfarwyddyd i ymddiriedolwyr, sicrhau bod grwpiau'n parhau'n atebol i'r cyhoedd ac ymchwilio i gamreoli elusennau.

Ymhlith y blaenoriaethau allweddol sydd wedi'u datgan gan y Comisiwn mae:
• Symleiddio'r broses o gofrestru elusennau, gan symud yn gyflym at wrthod ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion.
• Addasu canllawiau i anghenion amrywiol yr elusennau a defnyddio technoleg er mwyn galluogi personoli a rhyngweithio.
• Adolygu'r wybodaeth sydd ei hangen gan elusennau er mwyn sicrhau bod yr hyn y gofynnir amdano'n angenrheidiol ac yn ddigonol ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus.
• Cynnal y gallu i ymchwilio i elusennau unigol lle ceir camreoli neu gam-drin - ond canolbwyntio yn unig ar ymyriadau lle ceir risg difrifol a systemig a lle gall ymyrraeth y Comisiwn gael yr effaith fwyaf.
• Datblygu partneriaethau aˆ chyrff ymbarél fel eu bod, dros amser, yn gallu derbyn y cyfrifoldeb am gyngor un-i-un.
• Ystyried rhaglen o adolygu cymheiriaid er mwyn helpu i ddatgan meysydd o risg a rhoi sylw iddynt.
• Creu strwythur newydd gyda hierarchaeth fwy gwastad a llai o haenau o ran gwneud penderfyniadau.

Mae cyhoeddi'r blaenoriaethau hyn yn arwydd o ddiwedd cam cyntaf adolygiad strategol y Comisiwn, yr oedd ymgynghoriad cyhoeddus yn sail iddo. Bydd y cam nesaf yn cynnwys gwaith yn datblygu ac yn perffeithio'r blaenoriaethau hyn, gyda'r amcan o gael strwythur newydd yn ei le ar gyfer y Comisiwn o 1 Hydref 2011 ymlaen.
Am restr lawn o flaenoriaethau allweddol y Comisiwn Elusennau, ewch i http://www.charitycommission.gov.uk/welsh/index.aspx?

Cyfle ola i alw am enwebiadau i wobrwyo gwirfoddolwyr

Bydd enwebiadau ar gyfer Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru WCVA, sydd yn cael eu cefnogi eleni gan CCLA, yn cau ar ddydd Gwener 15 Ebrill.

Yn ogystal â chydnabod unigolion, pobl ifanc (dan 25 oed) a grwpiau, mae'r hefyd yn gwobrwyo gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr 'gwyrdd'.
Ceir hyd at dri enillydd ymhob categori, sy'n arwain at 15 enillydd cenedlaethol, a bydd yr enillwyr yn cael eu gwobrau mewn seremoni yng Nghaerdydd fis Mehefin, a bydd pawb a enwebir yn cael tystysgrifau clod mewn seremoni leol neu drwy'r post.

Ymhlith Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2010 oedd dau amgylcheddwr sy'n cymryd amser o'u gwaith yn ddi-dâl i wirfoddoli ac ymddiriedolwr sydd wedi bod yn allweddol yn sicrhau bod Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn y Gogledd yn rhedeg yn effeithiol.

Mae'r cefnogwr CCLA yn bodoli i helpu elusennau i wneud y gorau o'u buddsoddiadau. Gweler www.ccla.co.uk am ragor o wybodaeth.

Ceir manylion y cynllun, gan gynnwys ffurflenni enwebu, drwy gysylltu â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, e-bostio help@wcva.org.uk neu llwytho i lawr o www.wcva.org.uk/voty. Y dyddiad cau ar gyfer cael enwebiadau yw 15 Ebrill 2011.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru